Swyddfa'r Cyngor ● Y Ganolfan Gymdeithasol ● Ffordd Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF

 01766 832 398  clerc @cyngortrefffestiniog.cymru

# COFNODION CYFARFOD ARFEROL

# 10fed o Fedi 2020

**COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG**
**A GYNHALIWYD NOS IAU**
**10fed o FEDI 2020 AR LEIN AM 7.00 Y.H.**

| | | |
|---|---|---|
| CADEIRYDD: | Cynghorydd: | Glyn Daniels. |
| YN BRESENNOL: | Cynghorwyr: | Mark Thomas, Annwen Daniels, Bedwyr Gwilym, Rory Francis, a Gwenlli Evans. |
| | Swyddog Cyllid | David Williams |

**10811/09/20** **1.YMDDIHEURIADAU**
Cynghorwyr: Ronwen Roberts

**10812/09/20** **2. DATGAN DIDDORDEB**

| | | |
|---|---|---|
| Cynghorydd Glyn Daniels | - | Eitem 10 **10821/09/20** |
| | - | Eitem 16 **10832/09/20** |
| | - | Eitem 18 **10834/09/20** |
| Cynghorydd Annwen Daniels | - | Eitem 16 **10832/09/20** |

**10813/09/20** **3. MATERION BRYS**
Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
**Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

Darllenodd y Cadeirydd e-bost gan Williams a oedd yn cynnig rhoi Cadair Eisteddfod Dyffryn Madog fel rhodd i'r Cyngor Tref.
PENDERFYNIAD: I ddiolch i Mr Williams am ei gynnig. Bu i'r Cyngor drafod y byddai'r Gadair yn well fel rhodd i Gymdeithas Hanes Ffestiniog fel y gallai'r Gadair gael ei arddangos yn gyhoeddus.

**10814/09/20** **4.DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 9fed O ORFFENNAF 2020**
Cynghorydd Rory Francis yn cynnig derbyn y cofnodion, Cynghorydd Mark Thomas yn eilio.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion

**10815/09/20 5. Cyfrifon wedi/i'w talu**

# Cyfrifon 07.08.20 - 10.09.20 (dirprwyo yn ystod pandemic Covid-19)

**Cyfrifon 2020-2021 (Wedi'u Talu)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15/08/2020 | BT | Ffôn a'r Wê | £68.99 |

**Cyfrifon 2020-2021 (I'w Talu)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 27/07/2020 | Gareth Iwan Lewis | Gwaith Trydanol yn 'Y Ganolfan' | £417.00 |
| 29/07/2020 | Meithrinfa Blodau'r Felin | Planhigion ar gais John Farrington | £266.00 |
| 30/07/2020 | Zoe Pritchard | Ad-daliad Zoom Gorffennaf ag Awst | £28.78 |
| 06/08/2020 | Dŵr Cymru | Dŵr y Pafiliwn | £118.41 |
| 11/09/2020 | HMRC | Diddymiadau PAYE Medi 2020 | £1,865.69 |
| 11/09/2020 | Cyngor Gwynedd | Pensiwn Medi 2020 | £1,609.79 |
| 19/08/2020 | Owain Aeron | Torri Gwair | £1,365.00 |
| 31/08/2020 | Eifion Stores | Cable Ties/Paent | £29.30 |
| 01/09/2020 | Criccieth Cleaning | Glanhau | £1,695.96 |
| 16/09/2020 | British Gas | Trydan y Pafiliwn | £19.15 |
| | | | |
| 11/09/2020 | Zoe Pritchard | Cyflog Medi (yn cynnwys codiad cyflog ag ôl daliad ers Ebrill a tâl mamolaeth statudol Awst a Medi.) | £2,016.81 |
| 11/09/2020 | Eirian Barkess | Cyflog Medi (yn cynnwys codiad cyflog ag ôl daliad ers Ebrill.) | £2,034.88 |
| | | | **£ 11,535.76** |

## Arian i mewn

| | | | |
|---|---|---|---|
| 05/08/2020 | HMRC | Ad-daliad TAW - Chwarter 1 2020-21 | £ 1,288.50 |
| 09/07/2020 | Alwena Jones & Bright | Ad-daliad yn dilyn gwaith y llynedd yn ymwneud a prynu tir | £ 146.60 |
| | | | **£ 1,435.10** |

PENDERFYNIAD: Cyngor yn caniatáu i'r Swyddog Cyllid dalu..

**10816/09/20** **<u>6. Cyfrifon Misol y Cyngor Tref</u>**

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cyfrifon

**10817/09/20** **<u>7. Ceisiadau Cynllunio</u>**
**Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio.**

PENDERFYNIAD: I drafod y ceisiadau cynllunio ym Mhwyllgor Mwynderau 17eg o Fedi 2020

**10818/09/20** **<u>8. CLWB IEUENCTID</u>**
Bu i'r Dirprwy Glerc gael trafodaeth efo Siôn Bryn, Cyngor Gwynedd ynglŷn cynnal sesiynau i ieuenctid ar lein. Mae sawl ardal arall wedi gwneud hyn ac er eu bod wedi cymryd peth amser i ennyn diddordeb y bobl ifanc mae nifer y defnyddwyr wedi cynyddu dros amser. Bydd Sïon yn cysylltu â'r gweithwyr ieuenctid yn Ffestiniog i sefydlu'r sesiynau ar-lein ar gyfer ieuenctid ardal Ffestiniog.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr wybodaeth.

**10819/09/20** **<u>9 A) Diweddariad Tir Tan y Manod</u>**
Bu i'r Dirprwy Glerc rhoi diweddariad ei bod dal ddim wedi cael ymateb gan y cyfreithiwr y Cyngor ynglŷn â derbyn y papurau yn ôl gan y Gofrestrfa Tir.
Mae'r Dref Werdd wedi cael grant i droi'r tir yn berllan gymdeithasol. Bu i'r Cyngor drafod cael arwyddion gyda gwybodaeth y Cyngor Tref a Dref Werdd ai gosod o gwmpas y berllan.
Bu i'r Cyngor drafod bod y tir yn dal i gael ei ddefnyddio gan gyn denant

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth. Y dirprwy glerc i dal cysylltu efo'r cyfreithiwr, i gael dyfynbris am arwyddion a chysylltu efo tîm eiddo, Adra, ynglŷn ar gyn denant.

**10820/09/20 -** **<u>9 B) Diweddariad Lloches Bws, Manod</u>**

Bu i'r Cyngor cael gwybodaeth bod Llywodraeth Cymru yn chwilio am gyllideb i newid y groesfan. Bu i'r Cyngor cael gwybod ein bod dal yn aros am ymateb can Adran priffyrdd ynglŷn â chael yr hawl i ail godi'r lloches bws.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

**10821/09/20** **<u>10. Llythyr Cymdeithas Rhandiroedd</u>**

**Cynghorydd Glyn Daniels Ddatgan Diddordeb- Eitem 10 10821/09/20**

Bu i'r Cadeirydd, Cynghorydd Glyn Daniels ddatgan diddordeb, a gadael y Gader. Bu i'r Cynghorydd Mark Thomas gynnig y Cynghorydd Bedwyr Gwilym fel Cadeirydd, a Chynghorydd Annwen Daniels yn eilio.

Darllenodd y Dirprwy Glerc llythyr gan Gymdeithas Rhandiroedd Ffestiniog yn rhoi gwybod bod i'r Cyngor bod les y rhandiroedd yn dod i ben a bod angen iddynt adnewyddu eu prydles a dywedwyd wrthynt gan Gyngor Gwynedd mai Cyngor Tref Ffestiniog sydd bellach yn berchen ar y tir.
Trafododd a nododd y Cyngor nad y Cyngor Tref sy'n berchen ar y tir a bod y wybodaeth a roddwyd yn anghywir. Dylai'r Gymdeithas Rhandiroedd gysylltu ag Adran Tir ac Eiddo Cyngor Gwynedd a'r Dref Werdd i gael gwybodaeth ynglŷn ag adnewyddu'r brydles.

Penderfyniad: Y Dirprwy Glerc i ateb y llythyr gyda gwybodaeth i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a'r Dref Werdd.

Bu i`r Cynghorydd Glyn Daniels ddychwelyd yn ôl i'r Gadair.

**10822/09/20** **<u>11. Adroddiad Staff y Cyngor</u>**

Cyfle i'r Clerc / Ddirprwy Glerc rhoi diweddariad i'r Cynghorwyr o ddatblygiadau tasgau a rhaglen waith.

Bu i`r Dirprwy Glerc rhoi diweddariad i'r Cyngor.

Bu i David Williams, Swyddog Cyllid, rhoi gwybod i`r Cyngor ei fod am yrru ffurflen lwfans ymlaen i`r Cynghorwyr lenwi a dychwelyd yr ôl iddo cyn gynted â phosib.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

**Datblygiadau yn yr ardal**

**10823/09/20** **12. Iechyd**

Dim i adrodd

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

**MATERION YN CODI**

**13. CAEAU CHWARAE**

**10824/09/20** Y Parc - trigolion wedi bod yn cwyno fod y giatiau wedi cloi, er bod y Cyngor wedi cysylltu efo Kiki ynghylch ar Parc yn ail agor.
- biniau sbwriel yn llawn.
- un o drigolion Y Sgwâr wedi bod yn casglu sbwriel o amgylch y cae chwarae

PENDERFYNIAD: Y Dirprwy Glerc i gysylltu efo Kiki, drwy e-bost, i atgoffa hi bod agor a chau'r Parc yn rhan o'r cytundeb sydd rhwng y Cyngor a Chaffi'r Parc. Os nad bydd Kiki yn gallu parhau gydag agor a chau'r Parc, mae rhai o Gynghorwyr yn cytuno i neud drwy gynllunio rota. Cynghorwyr sydd yn cytuno i yrru diwrnodiau maen nhw ar gael i'r Dirprwy Glerc.
Cysylltu efo Criccieth Cleaning ynglyn a'r biniau sbwriel.
Y Cyngor i yrru llythyr o ddiolch am gasglu sbwriel o amgylch y cae chwarae.

**10825/09/20** Parc Sglefrio - mae rhaid i`r gwaith sydd angen i wneud ir offer gael i wneud cyn gynted a phosib cyn i rhywun frifo. Cynghorydd Mark Thomas wedi siarad efo J. Evans ac mae o yn barod i neud y gwaith weldio ond bydd rhaid i`r Cyngor logi generadur symudol i'r offer sydd ganddo.

PENDERFYNIAD: Y Dirprwy Glerc i gysylltu efo J. Evans i drafod costau a pa fath o generadur fydd o angen.

**10826/09/20** **E-bost John Farrington**
Bu i'r Cadeirydd ddarllen e-bost gan John Farrington oedd yn rhoi gwybod i`r Cyngor nad oedd o yn gallu gwneud gwaith i`r Cyngor, gan gynnwys adroddiadau misol y caeau chwarae, oherwydd ymrwymiadau eraill.
Y Dirprwy Glerc wedi chwilio am gytundeb John Farrington i weld os oedd rhaid iddo roi rhybudd, ond methu cael hyd i gytundeb.

PENDERFYNIAD: Y Cyngor yn mynd i roi tendr allan am y gwaith. Yn y cyfamser mae'r Dirprwy Glerc i wneud yr archwiliadau'r caeau chwarae

**10827/09/20** **Rhodd o ddwy goeden gan Mr Vivian Parry-Williams**
Bu i`r Cynghorydd Mark Thomas rhoi gwybod i`r Cyngor bod Mr Vivian Parry-Williams wedi rhoi rhodd o ddwy goeden ar gyfer y berllan gymunedol. Mae'r ddwy goeden bellach wedi eu plannu yn Sgwâr Rawson yn lle'r goeden oedd wedi syrthio.

PENDERFYNIAD: Y Cyngor i yrru llythyr o ddiolch i Mr Parry-Williams.

**10828/09/20 Plannu a Garddio**

Bu i`r Cynghorydd Mark Thomas ofyn a oedd yn bosib plannu bylbiau o amgylch y dref yn hytrach na phrynu blodau sydd yn marw ar ôl blwyddyn. Bydd yn torri costau prynu planhigion a blodau newydd pob blwyddyn.

PENDERFYNIAD: Dirprwy Glerc i gysylltu gyda Mr David Williams, cyn trefnydd Blaenau in Bloom, a gofyn am ei gyngor ynglŷn â pha flodau/planhigion fysa orau, ac wedyn cael dyfynbrisiau i'r blodau o wahanol siopau a mudiadau, fel Cwmni Seren.

**10829/09/20 Siglen Bryn Coed**

Bu i'r Cyngor drafod cael pris gan Playquest i roi trawst pren newydd ar draws y siglen bren yn ogystal â chael pris ffrâm newydd.

PENDERFYNIAD: Dirprwy glerc i ofyn i Playquest am ddyfynbris.

**10830/09/20** **14. Dyfynbris Tacluso Cofgolofn Llan.**

Bu i`r Cyngor drafod dyfynbris tacluso cofgolofn Llan.

PENDERFYNIAD: Bu i`r Cyngor benderfynu derbyn dyfynbris H.Jones.

**10831/09/20** **15. Difrod i fainc llechi yn Sgwâr Rawson.**

Bu i`r Cyngor cael gwybod bod un o feinciau Howard Bowcott yn Sgwâr Rawson wedi cael i daro ai ddifrodi gan gerbyd. Mae'r Dirprwy Glerc wedi cysylltu efo'r heddlu, sydd wedi ei hysbysu na allant wneud unrhyw beth nes bod y Cyngor wedi cael lluniau cctv o'r digwyddiad Mae'r Dirprwy Glerc yn trio cael y lluniau ac wedi cysylltu efo gwmni lleol i gael dyfynbris am roi'r fainc yn ôl.

PENDERFYNIAD: I aros am fwy o wybodaeth.

**10832/09/20** **16. E-bost Eirian Williams**

Bu i`r Cadeirydd, Cynghorydd Glyn Daniels ddatgan diddordeb, a gadael y Gader.
Bu i`r Cynghorydd Annwen Daniels ddatgan diddordeb
Bu i`r Cynghorydd Mark Thomas gynnig Cynghorydd Bedwyr Gwilym fel Cadeirydd, Cynghorydd Rory Francis yn eilio.
Llythyr gan Eirian Williams yn gofyn i'r Cyngor Tref am gefnogaeth i gael cae chwarae yn Fron Fawr.

PENDERFYNIAD: Bu i`r Cyngor benderfynu oherwydd diffyg cworwm, i drafod y mater ym Mhwyllgor Mwynderau 17eg o Fedi 2020.

**10833/09/20** **17. E-bost Rhodri Clark, history Points.**

Bu i`r Cadeirydd ddarllen e-bost gan Rhodri Clark, History Points, yn gofyn am ganiatâd y Cyngor i arddangos cod QR ar bostyn o flaen cofeb rhyfel Chwarel Oakeley er mwyn i drigolion sganio ac wedyn cael gwybodaeth am y milwyr.

PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad gan y Cyngor, ac i ofyn i`r cwmni os oes diddordeb ganddynt i neud yr un peth gyda chofeb yn Llan a thu allan i'r hen ysbyty.

**10834/09/20 <u>18. E-bost Cyngor Llanllyfni</u>**

Bu i`r Cadeirydd, Cynghorydd Glyn Daniels ddatgan diddordeb, a gadael y Gader.
Bu i`r Cynghorydd Mark Thomas gynnig Cynghorydd Bedwyr Gwilym fel Cadeirydd, y Cynghorydd Annwen Daniels yn eilio.

<u>Cynnig i Gyfarfod Cyngor Cymuned Llanllyfni. 11.08.20</u>

<u>Codi tal am fynediad i'r Wyddfa.</u>

Yn dilyn ymosodiad Covid 19 mae pob rhagolwg yn darogan dirwasgiad a phroblemau mawr iawn i economi gwledydd Prydain, ond yn anffodus fel y gwyddom, bydd effeithiau dirwasgiad ar economi Cymru yn llawer mwy difrifol. Hefo Brexit hefyd ar y gorwel mae'n swnio fel cyflafan.

Er mwyn hyrwyddo'r economi wledig yma yng Ngwynedd credwn fod angen i ymwelwyr cyfrannu trwy dalu am ddringo'r Wyddfa.

Y llynedd yn ôl y son daeth 600,000 o bobl i ddringo'r Wyddfa, amcangyfrifir tua 6,000 y dydd, ond yn anffodus yn aml iawn heb wario dim. Diwrnod rhad iawn.

Erbyn hyn mae gwir angen edrych ar ffyrdd lle gall ein heconomi elwa llawer mwy o'r diwydiant twristiaid.

Chewch chi ddim mynd i sgïo ar fynyddoedd Ffrainc os nad ydych wedi talu am yswiriant o flaen llaw.

Ar wyliau tramor mae'n orfodol i chi dalu tua 4% o ( tourist tax) ar ben eich biliau am fywyd a llety. Mae'r arian yma yn mynd i hybu'r economi leol yn yr ardal. Oes neb yn peidio mynd tramor oherwydd!.

Paham felly na allwn ni, fel un o ardaloedd tlotaf yn Ewrop, gael yr hawl i godi tal ychwanegol ar gerddwyr yr Wyddfa er lles ein heconomi ni?

Yr Wyddfa yw ein Twr Eiffel ni, ein potyn mel, ac mae ymwelwyr yn tyrru i fwynhau ei gerdded. Mae angen i ni fanteisio yn ariannol ar hynny.

*Yn amlwg bydd rhaid trafod cydweithio oherwydd bod nifer o bartneriaid yn ei berchen, neu a rhyw hawliau ar ein Mynydd uchaf. Yr Ymddiriedolaeth Cenedlaethol, Awdurdod y Parc, Ymddiriedolaethau Preifat, y Rheilffordd yr Amaethwyr a thifeddianwyr, ac wrth gwrs Llywodraeth Cymru. Felly tydi hi ddim yn rhwydd.*

*Mae'n bwysig felly bod pawb yn cyfrannu i'r drafodaeth mewn ffordd bositif.*

***Mae'r cynnig yma yn galw ar y Cynghorydd Dyfrig Siencyn Arweinydd Cyngor Gwynedd i alw Cyfarfod gyda rhanddeiliaid Yr Wyddfa yn Siambr y Cyngor tua mis Hydref, i drafod sut mae modd codi tal, ac elwa llawer mwy ar ymwelwyr sy'n cerdded yr Wyddfa.***

***Sut mae hynny'r digwydd yn fater arall, ynghyd a phwy fydd yn cael yr elw, ond mae 'na nifer o bosibiliadau a syniadau difyr eisoes wedi eu trafod, a'u crybwyll. Anodd credu nad oes modd fod yn ddyfeisgar ac yn flaengar yn yr oes ddigidol hon.***

***Mae'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn, yn ystyried y cyfarfod yn bosibilrwydd, ac yn cytuno bod angen syniadau newydd.***

Os yw eich Cyngor yn cytuno dylid cynnal cyfarfod yn Siambr Gyngor Gwynedd i drafod yr egwyddor bwysig o godi tal ar ymwelwyr i gerdded Yr Wyddfa, anfoner at Arweinydd Cyngor Gwynedd i ddatgan hynny os gwelwch yn dda.

**Aelodau Cyngor Cymuned Llanllyfni.**

PENDERFYNIAD: Bu i'r Cyngor drafod e-bost Cyngor Llanllyfni. Mae sawl pwynt i ystyried 1. Bydd codi tâl ar ymwelwyr i gerdded i fyny'r Wyddfa yn tanseilio'r Gyfraith Hawl i Grwydro oherwydd bod nifer o lwybrau troed cyhoeddus ar y mynydd. 2. Bydd y busnes Rheilffordd y Wyddfa yn cael ei effeithio ac yn gallu cael effaith ar swyddi. 3. Bydd y gost o godi ffensys a giatiau yn uchel i gymharu o'i gymharu â'r arian a gynhyrchir o godi tâl ar gerddwyr. Mae'r effaith ymwelwyr yn gorfod cael i ystyried drwy Wynedd i gyd, tai AirBnB, sydd yn talu trethi, meysydd parcio, nid dim ond ar y Wyddfa. Cynnig Cyngor Tref Ffestiniog ydy i godi treth twristiaeth drwy Wynedd i gyd.

Daeth Cynghorydd Glyn Daniels yn ol i'r Gadair.

**MATERION ER GWYBODAETH**

**10834/09/20** **<u>19. Cyfle i Gynghorwyr adrodd yn ôl i'r Cyngor yn dilyn eu presenoldeb pwyllgorau allanol.</u>**

Bu i`r Dirprwy Glerc rhoi diweddariad ar ei phresenoldeb mewn cyfarfod gyda Hwb Dref Werdd. Mae swyddfa Penrhyndeudraeth yn mynd i agor yn yr hen fanc wythnos nesaf. Mae'r tîm yn edrych ar sut i roi tabledi allan am ddim i bobl sydd yn gorfod cysgodi yn ystod y pandemic yn ogystal â gwersi a sut i ddefnyddio nhw, yn y gobaith fydd pobol yn gallu defnyddio facetime/amser wyneb i leihau effeithiau unigrwydd.

Bu i`r Cynghorydd Annwen Daniels rhoi gwybod i`r Cyngor bod Dref Werdd wedi cychwyn gwaith ar baratoi a agor siop di wastraff ar stryd fawr.

Bu i`r Cynghorydd Annwen Daniels rhoi gwybod i`r Cyngor bod Trafnidiaeth Cymru wedi cysylltu efo hi yn rhoi gwybod eu bod yn gobeithio ail ddechrau'r trên o Blaenau Ffestiniog i Landudno rhwng 17eg o Fedi 2020 ar 28ain o Fedi 2020

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

**10835/09/20** **<u>20. Newyddion o Gyngor Gwynedd</u>**

PENDERFYNIAD: Dim i drafod.

**GOHEBIAETH**

**10836/09/20** **<u>21. Clerks & Councils Direct</u>**
**<u>Cyfnodolyn Awst 2020.</u>**

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45yh

**CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF**
**NOS IAU 8fed O Hydref 2020**
**AR LEIN AM 7YH**

**CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 8fed O Hydref 2020 AR YR 5ed o Hydref 2020**

CADEIRYDD